Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Ymdrin ag Anomaleddau Hanesyddol mewn Rhestrau Aros

# Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf


**Blwyddyn archwilio:** 2013-14

**Cyhoeddwyd:** Mai 2015

**Cyfeirnod y ddogfen:** 454A2014

# Statws yr adroddiad

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf fel rhan o'r gwaith a wnaed yn unol â swyddogaethau statudol.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Alun Griffiths a Mandy Townsend, o dan gyfarwyddyd David Thomas.

# Cynnwys

Er i'r Bwrdd Iechyd ymateb yn briodol i bryderon ynghylch anomaleddau yn y data ar restrau aros, a phrosesau a atgyfnerthwyd yn dilyn hynny, roedd sawl agwedd ar ei ymchwiliad yn anfoddhaol.


| | |
|---|---|
| Adroddiad cryno | |
| Cefndir | 4 |
| Ffocws ein gwaith archwilio | 5 |
| Canfyddiadau allweddol | 5 |
| Roedd ymateb uniongyrchol y Bwrdd Iechyd i bryderon yn briodol ac, yn hollbwysig, ceisiodd sicrwydd nad oedd unrhyw glaf wedi cael niwed o ganlyniad i gael ei roi ar restr dal | 5 |
| Roedd sawl agwedd ar ymchwiliadau'r Bwrdd Iechyd i'r anomaleddau ynghylch y rhestrau aros yn anfoddhaol ac yn y pen draw methodd â nodi unrhyw atebolrwydd unigol am y problemau a gydnabuwyd | 6 |
| Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cymryd camau cadarnhaol i fynd i'r afael â gwendidau yn ei brosesau rheoli rhestrau aros ac atal y problemau a nodwyd rhag codi eto | 9 |
| Argymhellion | 10 |
| Atodiadau | |
| Methodoleg yr adolygiad | 11 |
| Amserlen digwyddiadau allweddol | 12 |

# Adroddiad cryno

## Cefndir

**1.** Yn ystod 2011, nododd gwaith ym Mwrdd Iechyd Cwm Taf (y Bwrdd Iechyd) gan Uned Cyflenwi a Chymorth Llywodraeth Cymru anomaleddau rhwng gweithgarwch dewisol arfaethedig a nifer wirioneddol y cleifion ar y rhestr aros. Datgelodd archwiliadau pellach gan yr Uned i'r Bwrdd Iechyd, yn ystod mis Mawrth 2011, gynnal ymarfer dilysu a edrychodd yn benodol ar garfan o 1,900 o gleifion a fyddai wedi aros mwy na 36 o wythnosau erbyn diwedd mis Mawrth 2011. Archwiliodd yr Uned fanylion cyfran sylweddol o'r garfan hon a chanfuwyd bod eu hamseroedd aros wedi'u haddasu neu eu hatal yn amhriodol. Yn y pen draw cafodd y cleifion eu rhoi ar restr dal cyn diwedd y flwyddyn, ac o ganlyniad cawsant eu dileu o'r ffigurau a gofnodwyd ar gyfer Amser Atgyfeirio i Gael Triniaeth (RTT). Wedyn cafodd y cleifion hyn eu rhoi unwaith eto ar y rhestr aros yn ystod misoedd cyntaf y flwyddyn weithredol nesaf.

**2.** Sefydlodd y Bwrdd Iechyd adolygiad mewnol o Ddadansoddiad o Achosion Sylfaenol i archwilio'r anomaleddau a gofnodwyd. Daeth yr adolygiad mewnol hwnnw i ben ym mis Rhagfyr 2011 a chyfeiriodd at nifer o wendidau ym mhrosesau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer rheoli rhestrau aros ond daeth i'r casgliad nad oedd unrhyw dystiolaeth o gamddefnydd bwriadol. Fodd bynnag, yn dilyn ymchwiliad pellach, cyhoeddodd yr Uned adroddiad ym mis Mawrth 2012 yn codi pryderon a nododd fod yr anomaleddau yn arwydd cryf o drin rhestrau aros yn systematig a bwriadol. Adroddodd yr Uned, ar sail ei dadansoddiad, na allai benderfynu a oedd y modd honedig yr ymdriniwyd â'r rhestrau aros wedi digwydd o ganlyniad i gamau gweithredu unigolion neu ai strategaeth sefydliadol ydoedd i gofnodi darlun perfformiad gwell y tu hwnt i'r hyn a oedd yn adlewyrchu'r sefyllfa go iawn.

**3.** Yn dilyn canfyddiadau'r Uned, ataliodd y Bwrdd Iechyd sawl aelod o staff dros dro a phenodwyd Swyddogion Disgyblu ac Ymchwilio i archwilio'r pryderon yn fanwl. Daeth yr ymchwiliadau hyn i'r casgliad, ar ddiwedd 2012, nad oedd achos i'w ateb mewn perthynas â'r unigolion a gafodd eu hatal dros dro. Fodd bynnag, daeth adroddiad terfynol y Swyddog Ymchwilio i'r casgliad bod strategaeth sefydliadol ar y pryd i wella'r darlun o ran perfformiad, a gyflawnwyd drwy ddehongli rheolau RTT yn greadigol. Rhoddodd hyn ddarlun ffug mewn perthynas â pherfformiad y sefydliad a hysbyswyd Llywodraeth Cymru am hyn ddiwedd mis Mawrth 2011.

**4.** Erbyn diwedd 2013, roedd y Bwrdd Iechyd wedi defnyddio'r canfyddiadau o'r ymchwiliadau amrywiol i'r anomaleddau ynghylch y rhestrau aros i nodi a gweithredu nifer o gamau unioni i atgyfnerthu ei ddull o reoli rhestrau aros.

**5.** Dylid nodi i Brif Weithredwr y Bwrdd Iechyd newid ar ddechrau 2011. Ymddeolodd y Prif Weithredwr blaenorol yn swyddogol ddiwedd mis Mawrth 2011. Dechreuodd y Prif Weithredwr presennol yn ei swydd ar ddechrau 2011, gan dderbyn statws Swyddog Atebol o fis Ionawr 2011. Gwnaeth y Prif Weithredwr a oedd yn gadael barhau i fod yn gyfrifol am reoli'r sefyllfa diwedd y flwyddyn ar gyfer 2010-11.

## Ffocws ein gwaith archwilio

**6.** O gofio difrifoldeb y materion a nodwyd, penderfynodd yr Archwilydd Cyffredinol fod angen gwneud gwaith archwilio i asesu a oedd y Bwrdd Iechyd wedi arddangos diwydrwydd dyladwy wrth ymchwilio i'r anomaleddau ac a oes camau priodol wedi'u cymryd i atal problemau tebyg rhag codi.

## Canfyddiadau allweddol

**7.** Ein casgliad cyffredinol yw, er i'r Bwrdd Iechyd ymateb yn briodol i bryderon ynghylch anomaleddau yn y data rhestrau aros, a phrosesau a atgyfnerthwyd yn dilyn hynny, roedd sawl agwedd ar ei ymchwiliad yn anfoddhaol. Yn benodol, methodd yr ymchwiliadau â phriodoli unrhyw atebolrwydd unigol am y problemau a gydnabuwyd. Yn fwy cadarnhaol, mae'r Bwrdd Iechyd wedi atgyfnerthu ei brosesau rheoli rhestrau aros yn dilyn hynny er mwyn atal problemau tebyg rhag codi.

**8.** Ystyrir y ffactorau sydd wedi ein harwain i'r casgliadau hyn ymhellach yn yr adrannau dilynol.

### Roedd ymateb uniongyrchol y Bwrdd Iechyd i bryderon yn briodol ac, yn hollbwysig, ceisiodd sicrwydd nad oedd unrhyw glaf wedi cael niwed o ganlyniad i gael ei roi ar restr dal

**9.** Wrth ddysgu am yr anomaleddau cychwynnol a nodwyd gan yr Uned yn Llywodraeth Cymru, sefydlodd y Bwrdd Iechyd adolygiad mewnol o'r Dadansoddiad o Achosion Sylfaenol yn 2011. Cymerodd y penderfyniad hwn ar ôl cynnal trafodaethau manwl â Llywodraeth Cymru, a gynhaliwyd drwy gydol y broses ymchwilio. Gwnaeth y Prif Weithredwr sicrhau hefyd fod Cadeirydd y Bwrdd yn cael ei friffio'n llawn ar y sefyllfa a oedd yn datblygu.

**10.** Yn hollbwysig, yn dilyn canfod bod 1,900 o gleifion wedi cael eu rhoi ar restr aros ddiwedd mis Mawrth 2011, gweithiodd y Bwrdd Iechyd gyda'r Uned i geisio sicrwydd nad oedd y cleifion hyn yn cael unrhyw niwed o ganlyniad i'w 'hatal dros dro' o'r rhestr aros. Dywedwyd wrth ein hadolygwyr na nododd yr ymarfer hwn unrhyw faterion o ran diogelwch cleifion: cafodd enwau'r holl gleifion yr effeithiwyd arnynt eu roi unwaith eto ar y rhestr aros, yn y drefn gywir, heb unrhyw effaith andwyol ar amseriad eu triniaeth. Mae'r camau gweithredu hyn yn rhoi sicrwydd cadarnhaol na pheryglwyd gofal y cleifion. Fodd bynnag, nid ydym wedi gwneud unrhyw waith archwilio i gadarnhau p'un a oedd y sicrwydd hwn yn gywir.

11. Hysbysodd y Prif Weithredwr y Bwrdd yn gyflym pan ddatgelodd ymchwiliadau pellach yr Uned faterion a oedd yn awgrymu'n gryf bod rhestrau aros wedi cael eu camliwio'n fwriadol. Cymeradwyodd y Bwrdd gyfres o argymhellion gan gynnwys cychwyn gweithdrefnau disgyblu ac atal pedwar aelod o staff dros dro wrth i ymchwiliad dan arweiniad swyddog ymchwilio allanol fynd rhagddo. Cynhaliwyd y broses o nodi swyddog ymchwilio drwy gydweithredu'n agos â Llywodraeth Cymru. Roedd hwn yn gam pwysig i sicrhau bod y swyddog yn wirioneddol annibynnol ar y Bwrdd Iechyd.

12. Ar y cyd, mae'r camau gweithredu hyn yn gyfystyr â chyfres briodol ac amserol o ymatebion i'r pryderon a oedd yn cael eu cofnodi. Fodd bynnag, fel y nodir yn yr adran ganlynol, roedd nifer o agweddau ar y gwaith ymchwilio nad oeddent yn foddhaol.

## Roedd sawl agwedd ar ymchwiliadau'r Bwrdd Iechyd i'r anomaleddau ynghylch y rhestrau aros yn anfoddhaol ac yn y pen draw methodd â nodi unrhyw atebolrwydd unigol am y problemau a gydnabuwyd

### Nododd yr adolygiad o'r Dadansoddiad o Achosion Sylfaenol sawl problem gyda phrosesau rheoli rhestrau aros ond yn y pen draw methodd yn ei ddiben craidd

13. Roedd y Cylch Gorchwyl ar gyfer yr adolygiad o'r Dadansoddiad o Achosion Sylfaenol a gomisiynwyd gan y Prif Weithredwr yn rhai eang, a hynny'n briodol, mewn perthynas â'r pryderon a nodwyd. Daeth i ben ym mis Rhagfyr 2011 a nododd sawl gwendid ac anghysondeb ym mhrosesau rheoli rhestrau aros y Bwrdd Iechyd a llinellau atebolrwydd cysylltiedig. Argymhellodd yr adolygiad bod angen gweithredu ar frys i symleiddio a chanoli'r trefniadau ar gyfer rheoli rhestrau aros; ffurfioli trefniadau monitro ac adrodd; a sefydlu rolau a chyfrifoldebau mwy penodol o ran perchenogaeth y targedau RTT a gweithdrefnau ategol.

14. Daeth yr adolygiad o'r Dadansoddiad o Achosion Sylfaenol i'r casgliad nad oedd unrhyw dystiolaeth o gamymddwyn bwriadol na chamreolaeth fawr o restrau aros. Fodd bynnag, er iddo nodi bodolaeth ymarfer dilysu rhestrau aros gwallus ar ddiwedd chwarter olaf 2010-11, methodd â nodi hyn fel achos sylfaenol yr anomaleddau. Byddai ymchwiliadau dilynol yn tynnu sylw at y mater hwn fel yr hyn a oedd wrth wraidd y problemau a nodwyd.

15. Roedd methu â chydnabod pwysigrwydd yr ymarfer dilysu yn golygu i gyfleoedd gael eu colli i ymchwilio i faterion ynghylch y dulliau llywodraethu a gwneud penderfyniadau sy'n gysylltiedig â'r ymarfer dilysu. Yn hytrach, canolbwyntiodd yr Adolygiad o'r Dadansoddiad o Achosion Sylfaenol ar gamau gweithredu'r rhai a oedd yn gyfrifol am gydlynu'r wybodaeth am reoli rhestrau aros ar ddiwedd 2010-11.

16. Roedd graddau'r problemau a nodwyd gan waith y Dadansoddiad o Achosion Sylfaenol yn ei gwneud yn anodd i'r tîm adolygu nodi'n glir achos sylfaenol gwirioneddol y problemau. Efallai y gellid bod wedi osgoi'r broblem hon pe bai'r adolygiad wedi bod o dan gyfarwyddyd unigolyn ar lefel uwch gyda gwybodaeth a phrofiad perthnasol. Ni chafodd aelodau tîm gweithredol y Bwrdd Iechyd eu cynnwys yn fwriadol yn y Dadansoddiad o Achosion Sylfaenol oherwydd ansicrwydd ynghylch p'un a oedd unrhyw swyddogion gweithredol wedi eu cysylltu â'r problemau a nodwyd. Fodd bynnag, ni nododd y Bwrdd Iechyd uwch arweinydd allanol gydag arbenigedd ym maes rhestrau aros o sefydliad arall, na chynnwys Aelod(au) Annibynnol a allai fod wedi cyfrannu sgiliau craffu gwerthfawr i'r broses.

### Effeithiodd sawl peth ar gadernid y broses ymchwilio gychwynnol a ddilynodd ail adroddiad yr Uned Cyflenwi a Chymorth yn 2012

17. Yn dilyn y penderfyniad i atal staff dros dro a sefydlu ymchwiliad wedi'i arwain yn allanol, daeth y Bwrdd Iechyd ar draws problem uniongyrchol wrth geisio dod o hyd i Swyddog Ymchwilio addas. Ni allai'r ymgeiswyr yr oedd yn eu ffafrio, gael eu rhyddhau o'u rolau presennol mewn bwrdd iechyd cyfagos i gynnal yr ymchwiliad. Gweithiodd y Bwrdd Iechyd gyda Llywodraeth Cymru i nodi a phenodi Swyddog Ymchwilio amgen yn y pen draw ar lefel ddigon uchel a gyda phrofiad ym maes adnoddau dynol, er nad oedd yn gallu gweithio tan tua chwe wythnos ar ôl iddynt ddechrau atal staff dros dro.

18. Roedd cefndir y Swyddog Ymchwilio yn golygu nad oedd ganddo'r wybodaeth dechnegol fanwl am y materion a oedd yn gysylltiedig ag adrodd am ffigurau RTT a rheolau a systemau gwybodaeth cysylltiedig. Nodwyd hyn fel cafeat yn ei adroddiad. Daethpwyd o hyd i uwch aelod o staff o fwrdd iechyd arall yng Nghymru gyda'r wybodaeth briodol i ddarparu arbenigedd a chyngor technegol ond ni ddefnyddiodd y Swyddog Ymchwilio ei wasanaethau.

19. Cododd problem arall mewn perthynas â defnyddio'r Uned Cyflenwi a Chymorth yn y broses ymchwilio. Deallwn mai dymuniad y Swyddog Ymchwilio oedd cyfweld yn ffurfiol â'r aelodau hynny o staff yr Uned a oedd yn gysylltiedig â nodi anomaleddau ynghylch y rhestrau aros a'r camddefnydd honedig o ddata. Fodd bynnag, yn dilyn cyngor yr adran Adnoddau Dynol yn ei sefydliad derbyn, ni chymerodd yr Uned ran yn y broses. Roedd yn gofidio bod yr Uned yn cael ei thynnu'n amhriodol i mewn i'r hyn a ddylai fod wedi bod yn ymchwiliad mewnol pan oeddent eisoes wedi darparu'r dystiolaeth angenrheidiol ar ffurf adroddiadau a thrwy sesiwn friffio gyda Phrif Weithredwr y Bwrdd Iechyd.

20. Roedd y dilyniant difudd hwn o ddigwyddiadau yn y pen draw yn golygu nad oedd y Swyddog Ymchwilio yn gallu dod i gysylltiad uniongyrchol â'r Uned i ymchwilio yn llwyr i'r materion a nodwyd gan eu hadolygiadau. Roedd hyn yn golygu, ynghyd â'r ffaith na wnaeth y Swyddog Ymchwilio ddefnydd o'r arbenigwr technegol a oedd ar gael, nad oedd yn gallu llwyr ddeall y manylion a oedd wrth wraidd pryderon yr Uned.

21. Yn fwy cyffredinol, roedd y Cylch Gorchwyl a ddarparwyd i'r Swyddog Ymchwilio yn gyfyngedig o ran cwmpas. Gwnaeth arwain yr ymchwiliad o reidrwydd i ystyried camau gweithredu'r staff a gafodd eu hatal dros dro mewn perthynas â chamddefnyddio'r data ar y rhestrau aros, ond ni wnaeth geisio cadarnhau'n benodol o ble y gallai'r cyfarwyddyd i gyflawni camau gweithredu o'r fath fod wedi dod.

22. Cyflwynodd y Swyddog Ymchwilio adroddiad ar ei ganfyddiadau i'r Bwrdd Iechyd ym mis Medi 2012. Daeth i'r casgliad nad oedd unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod y staff a gafodd eu hatal dros dro wedi camddefnyddio'r data ar y rhestrau aros nac wedi cael gafael yn amhriodol ar gofnodion ategol y cleifion. Ni fanylodd ei adroddiad ar sut y digwyddodd yr anomaleddau ynglŷn â rhestrau aros.

Priodolodd ymchwiliadau dilynol y pryderon a gofnodwyd i ymarferion dilysu rhestrau aros a gynhaliwyd ar ddechrau 2011 ond yn hollbwysig methwyd â nodi unrhyw atebolrwydd unigol am y problemau a gydnabuwyd.

23. Darparwyd copi o adroddiad y Swyddog Ymchwilio cychwynnol i'r swyddog disgyblu mewnol a benodwyd i ystyried a ddylid cymryd unrhyw gamau disgyblu yn erbyn y staff a ataliwyd dros dro. Fodd bynnag, roedd y swyddog disgyblu o'r farn bod angen rhagor o fanylion cyn gwneud unrhyw benderfyniadau. Gan nad oedd y Swyddog Ymchwilio gwreiddiol yn gallu gwneud unrhyw waith pellach ac roedd angen cwblhau'r ymchwiliad ar frys, penododd y Prif Weithredwr uwch reolwr adnoddau dynol o'r Bwrdd Iechyd i gynnal ymchwiliadau pellach a llunio ail adroddiad.

24. Canolbwyntiodd yr ymchwiliadau pellach hyn ar yr ymarfer dilysu rhestrau aros a gynhaliwyd yn ystod chwarter olaf 2010-11. Nododd Bwrdd Cynhyrchiant ac Effeithlonrwydd Gofal Acíwt y Bwrdd Iechyd, a gadeiriwyd gan y Prif Weithredwr blaenorol, yr angen i ddilysu rhestrau aros. Mae dilysu rhestrau aros yn weithgaredd angenrheidiol er mwyn sicrhau eu bod yn ddarlun teg a chywir o nifer y cleifion sy'n aros. Mae rheolau clir ynghylch targedau RTT sy'n cefnogi proses deg a chywir o ddilysu rhestrau aros. Cynhaliodd y staff a ataliwyd dros dro yr ymarferion dilysu a arweiniodd at enwau cleifion yn cael eu tynnu oddi ar y brif restr aros a'u rhoi ar restr dal, yn groes i reolau a chanllawiau RTT. Nodwn nad oedd dilysu yn rhan o'u dyletswyddau arferol, a'i fod wedi digwydd yn ystod chwarter olaf 2010-11 fel ymarfer untro.

25. Ni chadwyd cofnodion o gyfarfodydd y Bwrdd Cynhyrchiant ac Effeithlonrwydd Gofal Acíwt. Cofnodwyd nodiadau gweithredu yn dilyn y cyfarfod ond nid oedd yn bosibl dilysu pa drafodaethau a gynhaliwyd na beth oedd union gyfarwyddiadau'r Bwrdd Cynhyrchiant ac Effeithlonrwydd Gofal Acíwt mewn perthynas â'r ymarfer dilysu.

**26.** Adroddodd yr uwch reolwr adnoddau dynol am ganfyddiadau'r ail ymchwiliad ar ddiwedd mis Tachwedd 2012. Roedd yr adroddiad hwnnw yn cynnwys y casgliad canlynol:

‘It is the opinion of the Investigating Officer that there was an organisational strategy at that time to improve the performance picture [of the Health Board] and that this was achieved by creatively interpreting the rules of RTT, which did give a false picture in relation to the organisation’s performance which was reported to Welsh Government on 25 March 2011.’

**27.** These findings were interpreted as ones of ‘organisational failure’. Fodd bynnag, tybiwyd nad oedd digon o dystiolaeth i ddatgan yn bendant p'un ai camreoli neu weithred fwriadol oedd y rheswm am y ffordd amhriodol yr ymdriniwyd â'r ymarfer dilysu. Rhoddwyd caniatâd i'r staff a ataliwyd dros dro ddychwelyd i'r gwaith, er bod trefnu iddynt ddychwelyd i'r gwaith wedi dibynnu ar ddulliau rheoli ffurfiol drwy'r polisi galluogrwydd ac yn y pen draw gwnaethant ddychwelyd i rolau gwahanol o ganlyniad i newidiadau i'r strwythur sefydliadol a oedd wedi cael ei roi ar waith yn y cyfamser.

**28.** Mae diffyg tystiolaeth glir ynghylch y prosesau gwneud penderfyniadau a gynhaliwyd o ran yr ymarfer dilysu yn ystod chwarter olaf 2010-11 yn golygu na phriodolwyd unrhyw feiusrwydd nac atebolrwydd i unrhyw unigolyn. Yn ein barn ni, mae hwn yn ganlyniad anfoddhaol iawn yng nghyd-destun ymchwiliad a ddaeth i'r casgliad y bu methiant sefydliadol mewn perthynas â phrosesau rheoli rhestrau aros ac y dehonglwyd rheolau RTT mewn ffordd greadigol i greu darlun ffug o berfformiad rhestrau aros y Bwrdd Iechyd.

## Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cymryd camau cadarnhaol i fynd i'r afael â gwendidau yn ei brosesau rheoli rhestrau aros ac atal y problemau a nodwyd rhag codi eto

**29.** Mae'r archwiliad hwn hefyd wedi adolygu'r camau gweithredu y mae'r Bwrdd Iechyd wedi'u cymryd wedyn i atgyfnerthu ei brosesau rheoli rhestrau aros ac atal y problemau a wynebwyd yn 2010-11 rhag codi eto. Gallwn gofnodi i nifer o fentrau allweddol gael eu rhoi ar waith i atgyfnerthu trefniadau'r Bwrdd Iechyd, a bod y systemau rheoli rhestrau aros bellach yn wahanol iawn i'r rhai a fodolai yn 2010-11.

**30.** Mae'r gwelliannau yn cynnwys:

- dilysu cleifion ar restrau aros yn rheolaidd (bob wythnos);
- monitro gwybodaeth am restrau aros yn barhaus ar lefel weithredol a swyddog gweithredol er mwyn helpu i nodi a mynd i'r afael ag unrhyw anomaleddau posibl yn y data a gofnodwyd;
- strwythurau newydd, gwelliannau i'r system wybodaeth a hyfforddiant staff, wedi'u hategu gan Weithdrefn Rheoli Rhestrau Aros ddiwygiedig;
- cyfrifoldebau diwygiedig ar gyfer cynnal a dilysu rhestrau aros, gydag ysgrifenyddion meddygol bellach yn gyfrifol am gynnal gwybodaeth am restrau aros ar gyfer eu harbenigedd;

- gwahanu dyletswyddau'r Prif Swyddog Gweithredol, sy'n gyfrifol am berfformiad RTT a'r staff sy'n gyfrifol am gofnodi'r sefyllfa o ran rhestrau aros yn glir; a
- sicrhau y cedwir cofnodion rheolaidd o gyfarfodydd a fforymau rheoli allweddol.

**31.** Mae'r Bwrdd Iechyd yn hyderus bod y camau gweithredu y mae wedi'u cymryd wedi atgyfnerthu'n sylweddol ei drefniadau ar gyfer rheoli a chofnodi rhestrau aros. Byddem yn cytuno â'r farn hon yn seiliedig ar y wybodaeth a roddwyd i ni. Fodd bynnag, rhaid i ni nodi nad ydym wedi cynnal unrhyw brofion manwl o'r trefniadau newydd.

**32.** Mae hefyd yn gadarnhaol nad yw'r Bwrdd Iechyd yn llaesu dwylo a'i fod yn ymwybodol bod angen iddo barhau i adolygu ei drefniadau. Dylai hyn gael ei ategu gan wiriadau annibynnol priodol a chyfnodol o'i brosesau rheoli rhestrau aros.

# Argymhellion

**Safoni dull rheoli rhestrau aros, a'u prosesau a'u dull adrodd**

A1 Rhaid i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod ei brosesau newydd, ei ddull rheoli a'i hyfforddiant ar gyfer rheoli rhestrau aros yn cael eu hymgorffori'n llawn mewn arfer gweithredol, er enghraifft drwy wahodd archwiliad hapwiriadau Uned Cyflenwi neu Archwiliad Mewnol, ac ystyried y canfyddiadau'n agored ac yn dryloyw yn un o gyfarfodydd cyhoeddus y Bwrdd.

**Dysgu o'r Dadansoddiad o Achosion Sylfaenol ac ymchwiliadau disgyblu**

A2 Os na wnaeth hynny eto, mae angen i'r Bwrdd Iechyd ddysgu'r pwyntiau allweddol o'r dadansoddiad a'r ymchwiliadau disgyblu a gynhaliwyd ganddo yn ffurfiol mewn ymateb i anomaleddau rhestrau aros 2010-11. Y nod yw sicrhau na chaiff y gwendidau na'r anawsterau a wynebwyd yn yr ymchwiliadau hyn eu hailadrodd yn y dyfodol.

**Cofnodi penderfyniadau rheoli allweddol yn ffurfiol**

A3 Rhaid i'r Bwrdd Iechyd sicrhau y cynhelir cofnodion a llwybrau archwilio digonol ar gyfer pob fforwm allweddol lle y gwneir penderfyniadau rheoli pwysig.

# Atodiad 1

## Methodoleg yr adolygiad

Adolygodd Swyddfa Archwilio Cymru y ddogfennaeth berthnasol a'r adroddiadau a ddeilliodd o'r ymchwiliadau amrywiol. Gwnaethom adolygu'r wybodaeth a'r cofnodion a oedd yn cael eu cadw yn y Bwrdd Iechyd sy'n dangos ymateb y rheolwyr. Gwnaeth staff Swyddfa Archwilio Cymru gyfweld â swyddogion, rheolwyr ac aelodau annibynnol o Fwrdd Iechyd Cwm Taf yn ogystal ag unigolion allweddol a oedd yn cynrychioli Uned Cyflenwi a Chymorth Llywodraeth Cymru (yr Uned Cyflenwi bellach), Llywodraeth Cymru ac unigolion a oedd ar gael i ddarparu cymorth technegol i'r Bwrdd Iechyd ar adeg yr ymchwiliadau. Gwnaethom adolygu trawsgrifiadau cyfweliadau dienw o'r ymchwiliad disgyblu.

Gwnaethom hefyd adolygu hunanasesiad a ddarparwyd gan y Bwrdd Iechyd ar gyfer ein Hastudiaeth Genedlaethol ar Amseroedd Aros y GIG, a oedd yn cynnwys polisïau a gweithdrefnau diwygiedig ar gyfer rheoli rhestrau aros ym Mwrdd Iechyd Cwm Taf. Daeth ein gwaith maes i ben yn rhan olaf 2014.

# Atodiad 2

## Llinell amser digwyddiadau allweddol

### Tabl yn dangos digwyddiadau allweddol y llinell amser

| Digwyddiad | | Llinell amser |
|---|---|---|
| **1.** | Y Bwrdd Cynhyrchiant ac Effeithlonrwydd Gofal Acíwt yn nodi'r angen i gynnal ymarfer dilysu rhestrau aros. | Tua mis Tachwedd 2010 |
| **2.** | Cynnal ymarfer Dilysu Rhestrau Aros. | Chwefror/Mawrth 2011 |
| **3.** | Yr Uned Cyflenwi a Chymorth, Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd Iechyd yn nodi symudiadau afreolaidd yn nifer y cleifion ar y rhestrau aros yn y Bwrdd Iechyd ac y cytuno ar ddull i'w datrys. | Ebrill 2011 - Mehefin 2011 |
| **4.** | Adolygiad RCA (comisiynwyd gan y Prif Swyddog Gweithredol newydd). | Mehefin 2011 - Tachwedd 2011 |
| **5.** | Yr Uned yn cynnal gwaith ychwanegol i adolygu'r dadansoddiad o'r rhestrau aros yng Nghwm Taf. | Mehefin 2011 - Mawrth 2012 |
| **6.** | Yr Uned yn rhoi diweddariad geiriol o ganfyddiadau i'r Prif Swyddog Gweithredol. | Hydref 2011 |
| **7.** | Cwblhau Adolygiad RCA a briffio Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd. | Rhagfyr 2011 - Ionawr 2012 |
| **8.** | Y Bwrdd Iechyd yn cytuno ar gamau gweithredu, gan gynnwys cychwyn Proses Galluogrwydd. | Ionawr 2012 |
| **9.** | Yr Uned yn cyhoeddi adroddiad a chanfyddiadau ei gwaith. | Mawrth 2012 |
| **10.** | Y Bwrdd Iechyd yn diweddaru canfyddiadau'r Uned ac yn dechrau ar y Broses Ddisgyblu gyda'r staff sydd wedi cael eu hatal dros dro o'u swyddi. | Ebrill 2012 |
| **11.** | Y Bwrdd Iechyd yn cael anhawster dod o hyd i Swyddog Ymchwilio addas. | Ebrill 2012 |
| **12.** | Y Swyddog Ymchwilio Annibynnol yn dechrau adolygiad gyda chymorth yr uned adnoddau dynol a gwasanaeth arbenigwr technegol ar Restrau Aros. | Mai 2012 |
| **13.** | Cynnal adolygiad 'diwydrwydd dyladwy' cyfatebol gan berson annibynnol. | Mai 2012 |
| **14.** | Y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad yn monitro'r cynnydd a'r broses o gwblhau'r cynllun gweithredu a ddatblygwyd gan y Bwrdd Iechyd mewn ymateb i'r broblem a nodwyd ynghylch rhestrau aros. | Ma1 2012 – presennol |
| **15.** | Y Prif Swyddog Gweithredol newydd yn dechrau'r broses o ailadeiladu'r strwythur, y prosesau a'r systemau dan arweiniad tîm newydd. | Haf 2012 |

| Digwyddiad | Llinell amser |
|---|---|
| **16.** Y Swyddog Ymchwilio yn rhoi adroddiad ar ganfyddiadau'r Ymchwiliad Disgyblu i'r Swyddog Disgyblu. | Medi 2012 |
| **17.** Y Swyddog Disgyblu yn gwneud cais i'r agweddau ychwanegol gael eu hystyried i gwblhau'r ymchwiliad. Y Prif Weithredwr yn gwneud cais i'r swyddog Adnoddau Dynol gwblhau'r ymchwiliad gan fod y Swyddog Ymchwilio yn hysbysu'r Bwrdd Iechyd na all wneud gwaith ychwanegol. | Medi 2012 - Tachwedd 2012 |
| **18.** Y Swyddog Ymchwilio yn rhoi adroddiad ar y gwaith ychwanegol i'r Swyddog Disgyblu. | Tachwedd 2012 |
| **19.** Y Swyddog Disgyblu yn dod i'r casgliad nad oedd digon o dystiolaeth yn erbyn y staff a gafodd eu hatal dros dro a bod methiant sefydliadol wedi digwydd yn ystod 2010-11. Y staff yn dychwelyd i'r gwaith yn y Bwrdd Iechyd. | Tachwedd 2012 |
| **20.** Y Bwrdd Iechyd yn ymgysylltu â'r Arbenigwr Technegol ac yn cynnal adolygiad cymharol o'r system. | Dechrau 2013 |
| **21.** Y Cynllun Gweithredu wedi'i ddiweddaru yn cael ei adolygu bob chwarter gan yr FPC a'r Grŵp Llywio Ansawdd Data yn dechrau ar ei waith. | Dechrau 2013 hyd at heddiw |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk